Cyngor Sir y Fflint

# Hunanasesiad Corfforaethol




2023/24

Cymraeg

This document is also available in English.
See the English page on our website.

www.Siryfflint.gov.uk
Facebook.com/CSyFflint
x.com/csyfflint

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor ac yn nodi meysydd o arfer gorau a meysydd sydd angen gwelliant pellach.
Mae'r ddogfen yn egluro:


| Adran | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Beth yw'r Hunanasesiad Corfforaethol? | 3 |
| 2 | Proses Adolygu ac Amserlen | 4 |
| 3 | Meini Prawf Sgorio | 5 |
| 4 | Cymhariaeth Tair Blynedd (Crynodeb o Effeithiolrwydd Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor) | 5-6 |
| 5 | Sicrwydd Allanol | 6 |
| 6 | Perfformiad y Cyngor | 7 |
| 7 | Ymgynghori | 7 |
| 8 | Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 7-8 |
| 9 | Themâu allweddol yr Hunanasesiad Corfforaethol: | 9 |
| | Thema A - Gweledigaeth, Strategaeth a Pherfformiad | 10-12 |
| | Thema B - Cynllunio a Rheoli Adnoddau | 13-14 |
| | Thema C - Llywodraethu Sefydliadol, Moeseg a Gwerthoedd | 15 |
| | Thema D - Arweiniad Sefydliadol a Modelau Gweithredu | 16-17 |
| | Thema E - Arloesi a Rheoli Newid | 18-19 |
| | Thema F - Gweithio mewn Partneriaeth | 20 |
| | Thema G - Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned | 21-22 |
| | Thema H - Rheoli Risg a Pharhad Busnes | 23-24 |
| | Thema I - Newid Hinsawdd | 25-26 |
| 10 | Cynnydd ar Gyfleoedd ar gyfer Gwella o 2022/233 | 27-30 |
| 11 | Cyfleoedd ar gyfer Gwella yn 2023/24 | 31-41 |
| 12 | Ardystiad | 42 |

# 1. Beth yw'r Hunanasesiad Corfforaethol?

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd i adrodd ar berfformiad ac yn nodi 'Rhaid i Gyngor lunio adroddiad hunanasesu ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y mae wedi bodloni'r gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd, i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.' Nod y ddogfen hon yw cyflawni'r ddyletswydd a nodir uchod ar gyfer y ddeddf ac at ddefnydd y Cyngor.

Mae'r Hunanasesiad Corfforaethol yn asesiad cynhwysfawr o'r sefydliad corfforaethol ac nid yw'n asesiad manwl o berfformiad pob portffolio gwasanaeth, mae'r themâu asesu wedi'u dylunio fel hyn.

Bwriad yr hunanasesiad yw darparu llwyfan ar gyfer sicrwydd a hunan-welliant a byddai'n arwain at gynllun gwella ar gyfer y sefydliad.

Roedd y Model Hunanasesu yn canolbwyntio ar naw thema ac yn ystyried nifer o gwestiynau craidd o fewn pob un o'r themâu hyn, a amlinellir ymhellach yn y ddogfen hon. Fel gyda phob model mae'n anochel y bydd themâu'n croesi. Fodd bynnag, mae'r themâu wedi'u diffinio'n ddigonol i osgoi gormod o groesi neu ddyblygu.

Roedd y Model Hunanasesu yn dilyn tri cham:

- **Cam Un** dadansoddiad 'desg' a gwerthusiad o'r dogfennau a'r dystiolaeth sydd ar gael, ac ychydig o driongli mewnol drwy adolygu a safoni
- **Cam Dau** canfod barn, ymgynghori ac ymgysylltu a 'thriongli'
- **Cam Tri** pllunio asesiad ffurfiol a therfynol wedi'i gyhoeddi, a chynllun gwella a fydd yn cael ei arwain gan y Cabinet a'i wirio gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi mewnbwn a sicrwydd

Roedd y cam cyntaf yn ymwneud mwy â thystiolaeth, roedd hyn yn cynnwys presenoldeb strategaethau ac adroddiadau gwerthusol e.e. adroddiadau rheoleiddio, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Roedd yr ail gam yn fwy ansoddol drwy ymgynghori gyda budd-ddeiliaid allweddol a'r trydydd cam ydi'r cam terfynol sydd yn cynnwys llunio a chyhoeddi asesiad ffurfiol a therfynol a chynllun gweithredu.

# 2. Proses Adolygu ac Amserlen

Nodwyd amserlen ar gyfer cwblhau pob un o dri cham yr Hunanasesiad Corfforaethol fel a ganlyn:

| Cam | Tasg | Llinell amser |
|---|---|---|
| Un | Dadansoddiad 'desg' a gwerthusiad o'r dogfennau a'r dystiolaeth sydd ar gael, ac ychydig o driongli mewnol drwy adolygu a safoni | Ionawr - Ebrill 2024 |
| Dau | Canfod barn, ymgynghori ac ymgysylltu a 'thriongli' | Ebrill - Gorffennaf 2024 |
| Tri | Cam olaf, llunio asesiad ffurfiol a therfynol a chynllun gweithredu wedi'i gyhoeddi. Dan arweiniad y Cabinet a'i wirio gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i roi mewnbwn a sicrwydd | Gorffennaf - Medi 2024 |

Mae'r Hunanasesiad Corfforaethol yn defnyddio model Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor o werthuso, sgorio a chasglu tystiolaeth gan ei bod yn hysbys bod y model hwn yn effeithiol. Sefydlwyd Bwrdd Prosiect yn 2021, oedd yn cynnwys Cadeirydd Bwrdd Prosiect, uwch swyddog cyfrifol, a swyddogion o bob rhan o bortffolios a oedd naill ai'n Arweinwyr Perfformiad ar hyn o bryd neu swyddogion a oedd yn flaenorol yn rhan o'r Grŵp Adfer Llywodraethu yn ystod cyfnod ymateb y Cyngor i'r pandemig. Rhannwyd adroddiad i ddechrau yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2021 ar ddatblygiad y model Hunanasesu, a chymeradwywyd y model arfaethedig ar gyfer yr Hunanasesiad Corfforaethol cyntaf.

Gan mai dyma'r drydedd flwyddyn yn cwblhau'r Hunanasesiad Corfforaethol, y Tîm Rheoli Risg a Pherfformiad sydd bellach yn arwain yr hunanasesiad, ond maent yn parhau i drafod gyda'r swyddogion a fu ar y Bwrdd Prosiect yn flaenorol gan eu bod yn deall portffolios eu gwasanaethau ac maent yn ddigon 'uchel' yn y Cyngor i symud ymlaen â'r Hunanasesiad.

Dyma drydedd flwyddyn y Cyngor i gwblhau'r Hunanasesiad Corfforaethol. Ar gyfer 2022/23, cafodd y model a'r dull eu hadolygu a'u haddasu ychydig i gynnwys dau gwestiwn ychwanegol yn Thema A (Adroddiadau Gweledigaeth, Strategaeth a Pherfformiad), er mwyn sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Asesiadau o Effaith Integredig yn cael eu hymgorffori. Ar gyfer 2023/24, cafodd y model a'r dull eu hadolygu a'u haddasu i gyd-fynd â **Methodoleg yr Asesiad Perfformiad Panel**, ac fe gafodd y cwestiynau presennol eu diwygio rhywfaint, ac fe ychwanegwyd nifer o gwestiynau newydd a Thema newydd (Thema I: Newid Hinsawdd) i'r Hunanasesiad Corfforaethol. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau i drefnu panel i gynnal ac ymateb i asesiad corfforaethol lefel sefydliad, o ran i ba raddau y mae'r Cyngor yn diwallu ei ofynion o ran perfformiad.

Rhannwyd canlyniadau Cam Un mewn Academi Uwch Arweinyddiaeth lle cafodd rhai o'r canlyniadau eu hystyried, eu herio a'u gwerthuso. Yn ystod Cam Dau, ymgynghorwyd gyda rhai Aelodau o'r Cabinet, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, i ystyried, herio a gwerthuso'r adborth a'r sgoriau ymhellach er mwyn sicrhau ein bod ni fel Cyngor yn hunanasesu ein perfformiad yn barhaus.

# 3. Meini Prawf Sgorio:

Mae manylion y meini prawf sgorio ar gyfer yr Hunanasesiad Corfforaethol isod;


**Sgôr 5** Arfer orau
**Sgôr 4** Tystiolaeth dda
**Sgôr 3** Tystiolaeth ond mae angen camau gweithredu pellach
**Sgôr 2** Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol

**Sgôr 4/5** Arfer orau / Tystiolaeth dda
**Sgôr 3/4** Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu
**Sgôr 2** Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol/ efallai fod angen camau gweithredu pellach
**Sgôr 1** Dim tystiolaeth

# 4. Cymhariaeth Tair Blynedd

## (Crynodeb o Effeithiolrwydd Hunanasesiad Corfforaethol y Cyngor)

### Cymhariaeth rhwng 2021/22 a 2022/23 Hunanasesiad Corfforaethol




■ Sgôr 5 - Arfer orau (1%) ■ Sgôr 4/5 - Arfer orau / Tystiolaeth dda (1%) ■ Sgôr 4 - Tystiolaeth dda (58%) ■ Sgôr 3/4 - Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu (16%)
■ Sgôr 3 - Tystiolaeth ond mae angen camau gweithredu pellach (19%) ■ Sgôr 2/ 3 - Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol / Tystiolaeth ond mae angen camau gweithredu pellach (4%)
■ Sgôr 2 - Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol (1%)

Nodi: Ychwanegwyd dau gwestiwn ychwanegol i'r 22/23 Hunanasesiadau Corfforaethol mewn Thema A

Mae cymhariaeth gyffredinol o'r sgoriau rhwng 2022/23 a 2023/24 ar gyfer y 35 cwestiwn yn Themâu A-H (ac eithrio'r 32 cwestiwn newydd yn y Themâu) rhwng blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24, yn dangos bod **27** sgôr wedi aros yr un peth, **6** wedi gostwng a **2** wedi cynyddu.

Mae dadansoddiad pellach o'r sgôr ym mhob un o'r Themâu wedi'i amlinellu isod;

- **Thema A** parhaodd wyth cwestiwn gyda sgôr o 4 ac un cwestiwn wedi gostwng o sgôr o 4 i 3/4. Y pum cwestiwn newydd ar gyfer 2023/24; dau wedi sgorio 4 a thri wedi sgorio 3
- **Thema B** dau gwestiwn wedi sgorio 4; un cwestiwn wedi sgorio 3/4 ac un cwestiwn wedi sgorio 2/3. Y pedwar cwestiwn newydd ar gyfer 2023/24; dau gwestiwn wedi sgorio 4, un wedi sgorio 3/4 ac un arall wedi sgorio 2/3
- **Thema C** parhaodd tri chwestiwn gyda sgôr o 4 ac un cwestiwn wedi gostwng i 2/3
- **Thema D** arhosodd dau gwestiwn yr un fath gyda sgôr o 4, cynyddodd un cwestiwn o 3 i 4 a gostyngodd un cwestiwn o sgôr 4 i 3/4. Y tri chwestiwn newydd ar gyfer 2023/24; y tri chwestiwn wedi sgorio 4
- **Thema E** arhosodd dau gwestiwn yr un fath gyda sgôr o 4, a gostyngodd un cwestiwn o 4/5 i 3/4. Y ddau gwestiwn newydd ar gyfer 2023/24; un wedi sgorio 4 a'r llall wedi sgorio 3
- **Thema F** arhosodd y sgôr ar gyfer y tri chwestiwn yr un fath, un yn sgorio 5, un yn sgorio 4/5 ac un yn sgorio 4
- **Thema G** parhaodd dau gwestiwn gyda sgôr o 4, cynyddodd un cwestiwn o 2 i 3, a pharhaodd un cwestiwn â sgôr o 3. Y pum cwestiwn newydd ar gyfer 2023/24; tri chwestiwn wedi sgorio 3 a dau wedi sgorio 2/3
- **Thema H** parhaodd y tri chwestiwn gyda sgôr o 4. Y tri chwestiwn newydd ar gyfer 2023/24; un cwestiwn wedi sgorio 4, un cwestiwn wedi sgorio 3/4 a'r cwestiwn arall wedi sgorio 3
- **Thema I** ar gyfer 2023/24 cafodd Thema I ei ychwanegu at yr Hunanasesiad Corfforaethol i gasglu gwybodaeth yn benodol am Newid Hinsawdd, ac fe ychwanegwyd 10 cwestiwn i'r thema yma. O'r deg cwestiwn, dau gwestiwn wedi sgorio 4, dau wedi sgorio 3/4, pum cwestiwn wedi sgorio 3, ac un cwestiwn wedi sgorio 2

# 5. Sicrwydd Allanol

Mae ffocws lefel uchel o drefniadau llywodraethu, risg a rheoli ar waith ar gyfer gosod a monitro camau gweithredu mewn ymateb i adroddiadau gan reoleiddwyr allanol, gan gynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Archwilio Cymru. Mae'r Crynodeb Archwilio Blynyddol yn nodi'r gwaith archwilio a rheoleiddio sydd wedi'i wneud gan Archwilio Cymru mewn perthynas â Chyngor Sir y Fflint ers yr adroddiad blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023. Ar y cyfan, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i gasgliad cadarnhaol. Nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol wedi cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn ac mae cynigion ar gyfer gwelliant wedi codi o'r adolygiadau cenedlaethol a lleol a gyflawnwyd. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamwys, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 12 Ebrill 2024, ar ôl y dyddiad cau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef 30 Tachwedd 2023. Darparwyd yr archwiliad yn hwyrach na'r blynyddoedd blaenorol, yn bennaf yn sgil effaith y gofynion safonau archwilio newydd.

# 6. Perfformiad y Cyngor

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen fanwl sy'n nodi blaenoriaethau blynyddol y Cyngor. Mae'n ofynnol yn ôl Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i sefydliadau 'nodi unrhyw gamau gweithredu i gynyddu'r graddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad.' Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor 2023-28 gan y Cyngor ym mis Mehefin 2023, ac amlygodd yr adroddiad monitro perfformiad diwedd blwyddyn fod 74% o weithgareddau yn gwneud cynnydd da a 65% o'r dangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau ar gyfer y flwyddyn. Os na lwyddwyd i gyrraedd y targedau, mae rhesymeg wedi'i ddarparu i egluro pam. Mae gwybodaeth bellach i'w weld yn yr **Adroddiad Perfformiad Blynyddol**.

# 7. Ymgynghori

Cyfansoddyn allweddol o lenwi'r Hunanasesiad Corfforaethol ydi Cam Dau: Ymgynghori. Cafodd canlyniadau Cam Un yr Hunanasesiad Corfforaethol eu rhannu ac fe ymgynghorwyd arnynt mewn Academi Uwch Arweinyddiaeth lle cafodd rhai o'r canlyniadau eu hystyried, eu herio a'u gwerthuso. Yn ystod Cam Dau, ymgynghorwyd hefyd gyda nifer o Aelodau o'r Cabinet, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, i ystyried, herio a gwerthuso'r adborth a'r sgoriau ymhellach er mwyn sicrhau ein bod ni fel Cyngor yn hunanasesu ein perfformiad yn barhaus.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i roi llais i bobl a'u cynnwys nhw yn y penderfyniadau y mae'n eu gwneud a thrwy ddatblygu Canolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu, fe fydd hyn yn gwella'r broses o ymgynghori ac ymgysylltu ymhellach. Pan fydd wedi'i gwblhau (mis Medi 2024), fe fydd y Ganolbwynt yn darparu adnodd canolog lle:

- Gall pobl gael cyfleoedd i gymryd rhan a gweld sut mae eu cyfranogiad wedi gwneud gwahaniaeth
- Gall gwasanaethau gael mynediad at ganlyniadau ymgynghori i'w helpu i lywio eu gwaith
- Gall rheoleiddwyr adolygu gweithgaredd ymgynghori ac ymgysylltu a chanlyniadau y Cyngor

# 8. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae hi wedi bod yn glir tra'n gwerthuso'r Hunanasesiad Corfforaethol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol bod yna agweddau cyffredin. Y themâu a nodwyd ar gyfer gwella o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ydi:

- **Gwella trefniadau cynnwys, ymgysylltu ac ymgynghori â budd-ddeiliaid mewnol ac allanol**
    - Gwella penderfyniadau i wneud yn siŵr bod y camau gweithredu mwyaf priodol yn cael eu cymryd.*
    - Y gallu i dderbyn a defnyddio adborth i wella gwasanaethau, yn cynnwys trin cwynion yn well.*
    - Sicrhau cynwysoldeb gyda grwpiau budd-ddeiliad ac annog y cyhoedd i gymryd rhan.*
    - Gwella ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol.

- **Datblygu Asesiadau Effaith Integredig**
    - Bydd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn asesu effaith ei benderfyniadau a'i bolisïau ar grwpiau cydraddoldeb, yr amgylchedd, yr economi ac ar feysydd eraill o ddiddordeb cyn i unrhyw bolisi neu strategaeth newid.

- **Cynaliadwyedd yr Adnoddau a Gwydnwch y Gweithlu**
    - Rheoli disgwyliadau gwasanaeth yn effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael a'r budd-ddeiliaid.
    - Datblygu, recriwtio a chadw capasiti'r gweithlu yn dilyn adolygiad o'r model cyflogau.*
    - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn y gweithlu a'r Aelodau.

- **Cyfleoedd Hyfforddiant**
    - Prosesau gwneud penderfyniadau a herio gwell drwy hyfforddiant penodol, mae sesiynau wedi'u hwyluso ar gael i Aelodau ac Uwch Swyddogion.

- **Sefydlu Rheoli Risg**
    - Gweithredu trefniadau rheoli risg cadarn a sefydledig, o fewn sefyllfa ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y Cyngor.
    - Lefel cynyddol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o reoli risg ar draws y Cyngor trwy ddatblygiad a chyflwyniad modiwl e-ddysgu rheoli risg.*

Pan mae seren (*) wedi cael ei gynnwys i faes o welliant uchod, dyma faes o welliant sydd hefyd wedi cael ei nodi yn Hunanasesiad Corfforaethol eleni (2023/24).

# 9. Themâu Allweddol yr Hunanasesiad Corfforaethol

Mae naw thema allweddol yr Hunanasesiad Corfforaethol wedi'u rhestru isod, ac mae dadansoddiad o ran sut rydym ni'n gwneud hyn/sut rydym ni'n cyflawni hyn i'w gweld o dudalen 9 i dudalen 32:

| | |
|---|---|
| **Thema A** | Gweledigaeth, Strategaeth a Pherfformiad |
| **Thema B** | Cynllunio a Rheoli Adnoddau |
| **Thema C** | Llywodraethu Sefydliadol, Moeseg a Gwerthoedd |
| **Thema D** | Arweiniad Sefydliadol a Modelau Gweithredu |
| **Thema E** | Arloesi a Rheoli Newid |
| **Thema F** | Gweithio mewn Partneriaeth |
| **Thema G** | Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned |
| **Thema H** | Rheoli Risg a Pharhad Busnes |
| **Thema I** | Newid Hinsawdd |

Yn erbyn y themâu hyn, adolygodd y Cyngor:

- A oedd yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol
- A oedd yn defnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol
- A oedd ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod

# Thema A - Gweledigaeth, Strategaeth a Pherfformiad

| Cwestiynau | | Sut ydym ni'n gwneud hyn / Sut ydym ni'n cyflawni hyn? |
|---|---|---|
| A1 | A oes gan y Cyngor set o strategaethau corfforaethol a gwasanaethau ar waith sy'n nod gweledigaeth ac uchelgais? | • Cynllun y Cyngor 2023-28 sy'n nodi gweledigaeth ac uchelgais y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a'r hirdymor<br>• Roedd set o strategaethau corfforaethol a gwasanaethau ar waith a oedd yn nodi gweledigaeth ac uchelgais y Cyngor e.e. y Strategaeth Ddigidol, y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'r Rhaglen Gyfalaf a'r Strategaeth Cyfalaf 2024/25 - 2026/27 |
| A2 | A yw'r strategaethau hyn wedi'u clymu â strategaeth genedlaethol a rhanbarthol y Llywodraeth, a gweithdrefnau cynllunio ar y cyd \ â phartneriaid allweddol? | • Mae blaenoriaethau Cynllun y Cyngor wedi'u diffinio'n glir ac wedi'u clymu â blaenoriaethau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol<br>• Nododd Cynllun y Cyngor 2023-28 gysylltiadau clir â pholisïau/strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol a gafodd eu cynnwys yn y ddogfen<br>• Strategaeth Moderneiddio Ysgolion a Rhaglen amlinellol Strategol ar gyfer Buddsoddi mewn Ysgolion 21ain Ganrif - Symud tuag at ddod yn Ddi-garbon Net ar gyfer adeiladau ysgolion newydd, Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid |
| A3 | A yw'r strategaethau hyn yn cael eu dilyn ac a ydynt yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion? | • Caiff cynnydd a pherfformiad Cynllun y Cyngor 2023-28 eu monitro drwy'r System Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rheoli Risg<br>• Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn cael ei diweddaru'n flynyddol ochr yn ochr â phroses cyllideb y Cyngor<br>• Adolygwyd Strategaethau Gwasanaeth o fewn eu hamserlenni penodol (roedd amserlenni penodol yn amrywio rhwng pob un o'r strategaethau a'r gwasanaethau)<br>• Mae adroddiadau blynyddol ar strategaethau a chynlluniau perthnasol yn sicrhau bod adolygiadau o nodau ac amcanion yn cael eu cyflawni |
| A4 | A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy ac yn ddeinamig wrth addasu i newid a'r dyfodol? | • Cafodd Cynllun y Cyngor ei adnewyddu'n flynyddol yn 2023/24 er mwyn sicrhau priodoldeb. Ymgysylltwyd â budd-ddeiliaid gan gynnwys Tîm y Prif Swyddogion, Uwch Swyddogion, gweithwyr, Aelodau'r Cyngor i gefnogi datblygiad y cynllun<br>• Mae adolygu ein Strategaeth Ddigidol, gan gynnwys ymgynghori, yn sicrhau ei fod yn parhau'n addas i'r diben ac yn bodloni anghenion technolegau sy'n newid |
| A5 | A yw'r strategaethau hyn yn cael eu cefnogi gan gynlluniau busnes gwasanaeth portffolio sy'n gyson â nodau ac amcanion cyffredinol y Cyngor? | • Yn ystod y flwyddyn, roedd gan bob Portffolio gynllun busnes ar waith a oedd yn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023-28, ac mae nodau ac amcanion y Cyngor a rhai blaenoriaethau yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun y Cyngor, lle bo'n briodol<br>• Mae Cynlluniau Busnes Portffolio yn cael eu datblygu a'u monitro drwy'r System Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rheoli Risg newydd |

| Cwestiynau | | Sut ydym ni'n gwneud hyn / Sut ydym ni'n cyflawni hyn? |
|---|---|---|
| A6 | A yw'r strategaethau hyn yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? | • Cadw at ganllawiau statudol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), ar gyfer llunio Asesiad Lles a Chynllun Lles. Mae hyn yn cynnwys aliniad amlwg â nodau lles Cymru a phum ffordd o weithio<br>• Un o ofynion adroddiadau Pwyllgorau yw dangos sut mae strategaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf<br>• Mae nodau ac amcanion y Strategaeth Ddigidol a Strategaeth Newid Hinsawdd wedi'u gorfodi'n dda o dan y Ddeddf a'r pum ffordd o weithio<br>• Mae Cynllun y Cyngor (2023-28) (a Chynlluniau Portffolio Busnes) yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf |
| A7 | A wneir strategaethau a phenderfyniadau ar ôl cynnal Asesiadau Effaith Integredig (lle bo'n berthnasol)? | • Cynhelir Asesiadau Effaith Integredig ar bob strategaeth newydd sy'n asesu yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys Asesiadau Effaith Integredig cryno ar gyfer adroddiadau'r Pwyllgor ar adroddiadau strategol |
| A8 | A yw'r cynlluniau gwasanaeth portffolio hyn yn cael eu dilyn ac a ydynt yn cyflawni eu nodau, eu hamcanion a'u targedau perfformiad? (newydd i 22/23) | • Adolygu cynlluniau busnes Portffolio yn rheolaidd, gan gynnwys monitro a rhoi proses uwchgyfeirio ar waith<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/24<br>• Adroddiadau diwedd blwyddyn 2023/24 yn erbyn y blaenoriaethau a'r mesurau o fewn Cynllun y Cyngor (2023-28)<br>• Cafodd Cofrestri Risg eu llunio o fewn System Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rheoli Risg yn ystod 2023/24. Caiff risgiau eu monitro a'u diweddaru'n fisol (neu'n fwy am os oes angen) |
| A9 | A oes goruchwyliaeth ddemocrataidd effeithiol o gyfeiriad a pherfformiad gwasanaeth portffolio? (newydd ar gyfer 22/23) | • Roedd y cylchoedd adrodd ar berfformiad a oedd gennym ar waith yn sicrhau bod gennym ni sicrwydd a bod gweithdrefnau craffu cadarn ar waith<br>• Mae gan gylchoedd adrodd ar berfformiad broses drylwyr ar gyfer cyfrifoldeb gweithredol, craffu a sicrwydd<br>• Adroddwyd ar berfformiad portffolio drwy Fyrddau Rhaglen perthnasol |
| A10 | A oes ymdriniaeth draws-sefydliadol, integredig o fynd i'r afael â materion fel newid hinsawdd, tlodi, adfywio/yr economi leol, lles, ac ati? (newydd ar gyfer 23/24) | • Caiff newid hinsawdd a lleihau carbon ei ystyried o fewn y Cynllun Rheoli Asedau<br>• Eir i'r afael ag effeithiau ariannol ar draws portffolios drwy fyrddau rhaglen, strategaeth gyfalaf a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>• Mae cynllun gweithredu dysgu oedolion yn gysylltiedig ag adfywio - grwpiau creu lleoedd e.e. ardal Treffynnon yn mapio tai gwarchod; cysylltu cynllun dysgu oedolion â'r ddarpariaeth gymunedol |

| Cwestiynau | | Sut ydym ni'n gwneud hyn / Sut ydym ni'n cyflawni hyn? |
|---|---|---|
| A11 | A yw data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i werthuso perfformiad ac arwain at welliant?<br>(newydd ar gyfer 23/24) | • Mae meincnodi allanol yn cael ei gynnal, ac mae ffynonellau yn cynnwys Data Cymru, Housemark, Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus<br>• Llythyr ac Adroddiad Cwynion Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>• Caiff targedau blynyddol yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg eu hadrodd i Lywodraeth Cymru ac fe gânt eu defnyddio i ddiweddaru cynlluniau gweithredu |
| A12 | A oes tystiolaeth o ddull sefydledig a pharhaus o reoli perfformiad, sy'n dynodi'r ymyraethau angenrheidiol a bod y rheiny'n cael eu gweithredu heb oedi?<br>(newydd ar gyfer 23/24) | • Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data<br>• Pwyllgorau Craffu<br>• Byrddau Rhaglenni<br>• Arolygon Estyn ac AGC<br>• Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol - yn nodi blaenoriaethau |
| A13 | A yw cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad gwasanaeth (gan gynnwys archwiliad a chwynion/ canmoliaeth) i ddod o hyd i feysydd i'w gwella ac a yw'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion gwella corfforaethol?<br>(newydd ar gyfer 23/24) | • Cwynion/Canmoliaethau<br>• Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Adroddiad hunanwerthuso blynyddol yn cael ei gynnal ym mhortffolio Addysg ac Ieuenctid.<br>• Cynlluniau Busnes Portffolio yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor (2023-28) |
| A14 | A yw'r Cyngor yn mabwysiadu dull rheoli categorïau ar gyfer caffael?<br>(newydd ar gyfer 23/24) | • Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor wedi cael ei hadolygu'n ddiweddar a'r nod yw cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyfeirio at Amcanion Lles Corfforaethol Sir y Fflint<br>• Caiff dull rheoli categori ei ystyried yn arfer gorau<br>• Mae'r Gwasanaeth Caffael Cydweithredol yn adrodd i Fwrdd Rheoli ar y Cyd |

**Sgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Mae pob Portffolio yn sicrhau bod eu cynlluniau busnes yn cyd-fynd â Chynllun y Cyngor 2023-28 a strategaethau/ cynlluniau eraill (lle y bo’n briodol)
- Mae nodau ac amcanion y Strategaeth Ddigidol wedi'u gorfodi'n dda o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio
- Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yn cael ei lunio bob pedair blynedd a’i adolygu’n flynyddol; mae’n cyflawni cyfrifoldeb statudol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn arddangos ein huchelgais mewn cysylltiad â hyn
- Mae dull corfforaethol cyfunol trawsbynciol ar waith - dadansoddi hinsawdd a dadansoddi cydraddoldeb.

**Sgôr 3/4 - Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu**

- (A7) Yn cynnal Asesiad Effaith Integredig yn gyson, a phan fo angen, yn gwella, ac yn gwneud penderfyniadau gwell

**Sgôr 3 - Tystiolaeth ond Angen Camau Gweithredu Pellach**

- (A11) Caiff data ei gasglu ar draws y Cyngor, serch hynny, fe nodwyd fod angen i ni ddefnyddio mwy o ddata i greu gwelliant. Fel Cyngor, mae angen defnyddio data i yrru a gwella perfformiad ymhellach
- (A12) Mae yna lawer o ddata’n cael ei gasglu ar draws y sefydliad, ond mae angen ystyried sut caiff hyn ei gasglu ar lefel mwy strategol
- (A13) Cynlluniau Busnes Portffolio yn cael eu datblygu yn barhaus drwy'r System Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rheoli Risg

# Thema B - Cynllunio a Rheoli Adnoddau

| Cwestiynau | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn? |
|---|---|---|
| B15 | Oes gan y Cyngor strategaethau cynhwysfawr a gynhelir ar waith ar gyfer gweithlu, cyllid, caffael ac asedau, sydd yn cyd-fynd â chylch cynllunio'r gyllideb statudol (sy'n dangos sut bydd y Cyngor yn cynnal darpariaeth gwasanaeth)? (diwygiwyd 23/24) | • Roedd gan y Cyngor nifer o strategaethau cynhwysfawr a gynhelir ar waith, gan gynnwys; y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, Strategaeth Dementia, Cod Llywodraethu Corfforaethol, Strategaeth Gaffael, Strategaeth Asedau Cyfalaf, Strategaeth y Gweithlu a Strategaeth Ddigidol |
| B16 | A oes gan y Cyngor strategaethau cynhwysfawr a gynhelir ar waith ar gyfer gweithlu, cyllid, caffael ac asedau, sy'n cael eu rheoli i gefnogi agendâu ehangach (gwariant ar gyfer lles cymunedol, gwerth cymdeithasol, datblygu lleoedd, prinder tai, ac adfywio)? (newydd ar gyfer 23/24) | • Nifer o strategaethau sydd yn cefnogi agendau ehangach, gan gynnwys, cynnwys gwerth cymdeithasol o fewn gweithgareddau caffael<br>• Strategaeth Tai - yn cynnwys rhaglen ariannol pum mlynedd o waith i adeiladu tai cymdeithasol ychwanegol i fynd i'r afael â phrinder yn y Sir<br>• Proses Trosglwyddo Asedau Cymunedol<br>• Rhaglen Fuddsoddi Cynaliadwy i Gymunedau sy'n Dysgu |
| B17 | A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion ar lefel gorfforaethol? | • Mae'r strategaethau hyn yn gweithredu fel fframwaith o fewn y Cyngor ac yn sail i'r holl weithgareddau a roddir ar waith. Rhoddwyd diweddariadau i'r Cabinet a/neu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gynnydd y strategaethau |
| B18 | A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion ar lefel portffolio? | • Mae'r strategaethau hyn yn gweithredu fel fframwaith o fewn y Cyngor ac yn sail i'r holl weithgareddau a roddir ar waith. Rhoddwyd diweddariadau i'r Cabinet a/neu'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gynnydd y strategaethau |

| Cwestiynau | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn? |
|---|---|---|
| B19 | A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy ac yn ddeinamig wrth addasu i newid a'r dyfodol? | • Mae'r strategaethau hyn yn gweithredu fel fframwaith o fewn y Cyngor ac yn sail i'r holl weithgareddau a roddir ar waith. Serch hynny, roedd yna rhai meysydd rhwng Portffolios a Chorfforaethol nad ydynt bob amser yn ymateb i anghenion sy'n newid |
| B20 | A oes yna drefniadau monitro'r gyllideb yn effeithiol ar waith sy'n cynnig gwerth am arian? (newydd ar gyfer 23/24) | • Strategaeth Ariannol Tymor Canolig - asesiad cynhwysfawr o'r gyllideb<br>• Tîm Cyllid Ymroddedig<br>• Monitro'r gyllideb rhwng Cyllid Corfforaethol a Rheolwyr Gwasanaeth Portffolio gan alluogi adnabod ac ymyrraeth gynnar<br>• Aelodau yn rhan o'r broses o fonitro'r gyllideb |
| B21 | A ydi'r Cyngor yn ystyried cadw staff, ac anghenion a bylchau sgiliau presennol ac yn y dyfodol? (newydd ar gyfer 23/24) | • Polisi Gweithio Hybrid<br>• Polisi Gweithio'n Hyblyg<br>• Rhaglen Cymorth i Weithwyr<br>• Addasu i fodloni anghenion newidiol gwasanaeth |
| B22 | A oes yna ddiwylliant sefydliadol cadarnhaol (parch, tryloywder, cydweithio, her, ymrwymiad i welliant parhaus, cydraddoldeb staff ac iechyd sefydliadol)? (newydd ar gyfer 23/24) | • Polisi Cymraeg yn y Gweithle<br>• Proses/Polisi gwerthuso Goruchwyliaeth a Lles<br>• Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi<br>• Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb<br>• Cyfleoedd hyfforddi a datblygu<br>• Mynediad i VivUp - Platfform Cefnogaeth Buddion i Weithwyr |

**Sgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Mae Strategaethau yn gweithredu fel fframwaith o fewn y Cyngor ac yn sail i'r holl weithgareddau a weithredir, ar lefel portffolio a chorfforaethol
- Diwylliant sefydliadol cadarnhaol - Diwylliant agored a gonest o dryloywder a chydweithio
- Cynnal arolwg gweithlu yn ystod mis Mehefin 2023

**Sgôr 3/4 - Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu**

- (B21) Adolygu a gweithredu model cyflogau sy'n cydymffurfio ac sy'n gynaliadwy
- (B15) Amseroldeb adolygu a monitro strategaethau allweddol

**Sgôr 2/3 - Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol/ Angen camau gweithredu pellach**

- (B16) a (B19) Mae yna feysydd sydd angen eu gwella, mae hyn yn cynnwys amseroldeb adolygu a monitro strategaethau a chynlluniau allweddol, gan sicrhau trosolwg corfforaethol o'r holl bolisïau a strategaethau a phennu effeithiolrwydd polisïau a strategaethau o'r fath

# Thema C -
# Llywodraethu Sefydliadol, Moeseg a Gwerthoedd

| Cwestiynau | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| C23 | A oes gan y Cyngor fframweithiau a chodau cynhwysfawr, clir, cadarn a gynhelir ar gyfer llywodraethu, moeseg a gwerthoedd sydd yn croesawu craffu a her adeiladol? (newydd ar gyfer 23/24) | • Adolygwyd a diweddarwyd Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor gan Weithgor Llywodraethu Corfforaethol, a oedd yn cynnwys uwch swyddogion o'r portffolios perthnasol. Roedd eu hasesiadau yn destun her gan swyddogion statudol<br>• Adroddiad IA (moeseg) - Sicrhawyd bod saith egwyddor bywyd cyhoeddus yn ganolog i'r broses wneud penderfyniadau<br>• Cod Ymddygiad - Roedd ymddygiad da o'r pwys mwyaf. Sicrhawyd y cedwir at y cod gan fod gan y Cyngor Bwyllgor Safonau cadarn, yr oedd ei aelodaeth wedi'i adnewyddu drwy weithdrefnau recriwtio llym o aelodau lleyg newydd<br>• Fe wnaethom gynnal Egwyddor A o'n Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheolau'r gyfraith<br>• Roedd ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun her Aelodau<br>• Cafodd y Fframwaith Rheoli Risg ei adolygu ym mis Rhagfyr 2023 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2024 |
| C24 | Pa mor dda y caiff y fframweithiau a'r codau hyn eu rhoi ar waith a'u dilyn? | • Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn hunanasesiad o'n Cod Llywodraethu Corfforaethol yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd gennym yn y sefydliad, ac fe'i hadolygwyd gan Archwilio Cymru |
| C25 | A yw moeseg a gwerthoedd yn amlwg yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gwerthuso opsiynau ac yn gwneud penderfyniadau? | • Ceir tystiolaeth o werthoedd corfforaethol cryf yn y ddarpariaeth barhaus o wasanaethau dewisol/ penderfyniadau a wneir er budd ein preswylwyr, er gwaethaf pwysau ariannol i dorri gwasanaethau o'r fath. |
| C26 | A yw'r Cyngor yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i reoleiddwyr allanol ac yn dangos cydymffurfiad cadarn? | • A robust ethical framework was in place - mapped through to monitoring and reporting structures<br>• The ethical framework was visible in the Constitution and supporting policies and protocols |

**Sgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Gwerthoedd corfforaethol cryf sy'n dystiolaeth wrth barhau i ddarparu gwasanaethau, yn enwedig y rheini sy'n ddewisol
- Llywodraethu Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Corfforaethol
- Fframweithiau a chodau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Sgôr 2/3 - Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol/ Angen camau gweithredu pellach**

- (C24) Datblygu set glir o werthoedd sydd wedi'u diffinio'n glir a'u defnyddio'n gyson ar draws y Cyngor (yn cynnwys gweithwyr ac Aelodau). Pob polisi, strategaeth a phroses i gyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor

# Thema D - Arweiniad Sefydliadol a Modelau Gweithredu

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| D27 | A oes yna arweinyddiaeth a dylanwad gwleidyddol cryf ac effeithiol (yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol)? (diwygiwyd 23/24) | • Nododd tystiolaeth y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Egwyddor A, nifer o ddogfennau a oedd yn nodi Codau Ymddygiad ynghyd â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, a hefyd yn nodi safon i'w chyflawni<br>• Cynhelir cyfarfodydd arweinwyr Grŵp yn rheolaidd rhwng arweinwyr holl grwpiau gwleidyddol y Cyngor ac mae swyddogion statudol yn mynychu (Prif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, Prif Swyddog (Llywodraethu)/ Swyddog Monitro, Rheolwr Cyllid Corfforaethol/Swyddog Adran 151 a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd) |
| D28 | A oes yna arweinyddiaeth a dylanwad gwleidyddol cryf ac effeithiol (yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol)? (diwygiwyd 23/24) | • Nododd tystiolaeth y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, Egwyddor A, nifer o ddogfennau a oedd yn nodi Codau Ymddygiad ynghyd â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, sydd hefyd yn nodi safon i'w chyflawni<br>• Darparwyd arweinyddiaeth gref a phroffesiynol drwy'r Tîm Prif Swyddogion a Thimau Rheoli Adrannol y portffolio, gyda chefnogaeth yr Academi Arweinyddiaeth uwch, sy'n cynnwys Prif Swyddogion a Rheolwyr Gwasanaeth eu portffolio |
| D29 | A oes gan y Cyngor fodel gweithredu sefydliadol a fabwysiadwyd, a diwylliant gweithio dewisol? | • Addaswyd model gweithredu 'strwythur gwastad' y Cyngor yn 2014, yn dilyn adolygiad helaeth. Symudwyd y strwythur gwreiddiol o Brif Weithredwr a naw Prif Swyddog i un Prif Weithredwr a chwe Phrif Swyddog yn sgil addasu i newid o fewn y Cyngor<br>• Yn edrych yn barhaus am ffyrdd i wella darpariaeth gwasanaeth<br>• Gweithio ar y cyd |
| D30 | Fel sefydliad, ydym ni'n gweithredu fel un Cyngor? | • Roedd y strwythur yn effeithiol, ac amlygwyd hyn gan berfformiad y sefydliad ar lefel perfformiad corfforaethol, a'r perfformiad ar draws nifer o brosiectau amrywiol lle'r oedd y gwahanol feysydd yn gweithio mewn modd cydweithredo |
| D31 | A yw'n amlwg mai'r diwylliant gwaith a ffefrir sydd drechaf, ac a yw'n effeithiol? | • Roedd y diwylliant gwaith yn dangos swyddogion o wahanol bortffolios yn cydweithio ar brosiectau |

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| D32 | A ydi'r Cyngor yn dangos ymrwymiad i weithio gyda phartneriaid i leihau anghydraddoldeb a darparu gwasanaethau sydd yn gynhwysol a hygyrch i gymuned amrywiol? (newydd ar gyfer 23/24) | • Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru yn gweithio gyda Thîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol<br>• Cyfamod y Lluoedd Arfog<br>• Gwaith partneriaeth ar gyfer modelau darparu addysg amgen<br>• Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion<br>• Datblygu Canolbwynt Digidol mewn partneriaeth gyda Chymunedau Digidol Cymru er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau digidol fod yn hygyrch i bawb |
| D33 | A yw Cynghorwyr a swyddogion yn cael eu cefnogi yn eu rolau arweinyddiaeth, yn cynnwys dysgu a datblygu? (newydd ar gyfer 23/24) | • Cadw statws/achrediad Corff Proffesiynol<br>• Datblygiad Proffesiynol Gyrfaol<br>• Cyrsiau arweinyddiaeth CLILC<br>• Pecyn hyfforddiant sefydlu manwl i Aelodau Etholedig |
| D34 | Sut mae arweinwyr gwleidyddol ac arweinwyr rheoli ar bob lefel yn dangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad i leihau anghydraddoldeb a herio gwahaniaethu o fewn y Cyngor? (newydd ar gyfer 23/24) | • Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol<br>• Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br>• Cyfleoedd hyfforddi a datblygu<br>• Digwyddiadau 'Pride' gydag ysgolion uwchradd |

**Sgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Cydweithio cryf ar draws portffolios ac edrych ar ffyrdd o wella darpariaeth drwy'r amser
- Ystod o gyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol / Cod Llywodraethu Corfforaethol
- Cyfarfodydd rheolaidd i arweinwyr grŵp

**Sgôr 3/4 - Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu**

- (D30) Mae'r gwaith o gadarnhau Gweledigaeth a Gwerthoedd y Cyngor angen cael ei gwblhau.  Fe fydd yn helpu i ddiffinio ac atgyfnerthu golau'r Cyngor

**Sgôr 3 - Tystiolaeth ond Angen Camau Gweithredu Pellach**

- (D31) Mae gwytnwch ymhlith y gweithlu yn fater sy'n dod i'r amlwg ac felly, mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â model tâl cynaliadwy a chydsyniol, a chwblhau Fframwaith Cynllunio'r Gweithlu (mae hyn hefyd yn gysylltiedig â Thema B)

# Thema E - Arloesi a Rheoli Newid

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| E35 | A oes gan y Cyngor awydd profedig i arloesi a rheoli newid? | • Cynllun pum mlynedd o hyd yw Cynllun y Cyngor (2023-28) ac mae hi'n ddogfen uchelgeisiol. Roedd dyddiadau targedau, mesurau a gweithredoedd yn ymestynnol/uchelgeisiol ond yn realistig eu natur. Yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 mae yna nifer o enghreifftiau sydd yn dangos arloesi a rheoli newid, gyda nifer o gamau gweithredu a mesurau ychwanegol yn amlwg drwy gydol y cynllun<br>• Strategaeth Ddigidol, Strategaeth Cymunedau sy'n Dysgu Cynaliadwy, Strategaeth Tai<br>• Sero Net ar brosiectau adeiladu newydd |
| E36 | Pa mor dda y mae'r Cyngor wedi gweithredu'r rhaglenni a'r prosiectau arloesi a newid a ddewiswyd ganddo yn erbyn amcanion a thargedau amser, cyllideb, adnabod risg, trosglwyddiad a pherfformiad? (diwygiwyd 23/24) | • Wedi sicrhau cyllid allanol yn llwyddiannus i ddarparu prosiectau arloesol yn cynnwys o fewn Gwasanaethau Ynni, Adfywio a Chefn Gwlad<br>• Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned - ehangu'r ddarpariaeth yn sylweddol - arolwg cadarnhaol gan Estyn<br>• Cynllun y Cyngor (2023-28) |
| E37 | Pa mor dda y mae'r Cyngor yn cymharu â'i gymheiriaid o ran bod yn arloeswr? | • Awdurdod arweiniol ar Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru ar brosiectau cyfalaf ysgolion<br>• Ymgysylltu gyda nifer o rwydweithiau i rannu syniadau ac adnabod arferion gorau a gwaith, yn cynnwys prosiect Therapi Aml-systemig llwyddiannus, Meicro-Ofal, Prosiect Search |
| E38 | A oes ymrwymiad clir i atal gan neilltuo adnoddau addas i atal neu ddatrys problemau (yr achos wrth ei wraidd), yn fwy na thrin a rheoli problemau? A oes ystyriaeth wedi'i rhoi i gydweithio gyda gwasanaethau/partneriaid eraill i ddarparu datrysiad integredig? (newydd ar gyfer 23/24) | • Arferion sy'n Ystyriol o Drawma gyda Swyddogion Hyfforddi ac Ysgolion i fod yn ymarferwyr/sefydliadau sy'n Ystyriol o Drawma i gefnogi dull mwy ataliol<br>• Grant Cymorth Tai<br>• Mae gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer oedolion a phlant yn cael eu comisiynu ar sail ranbarthol neu is-ranbarthol<br>• Fframwaith Partneriaeth Adeiladu Gogledd Cymru<br>• Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrau Gogledd Ddwyrain Cymru<br>• Cymorthfeydd Digidol |

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| E39 | Ydi'r Cyngor yn defnyddio adnoddau digidol, data a strategaethau i hwyluso trawsnewid, cefnogi amcanion corfforaethol a gyrru gwelliant yn barhaus?<br>(newydd ar gyfer 23/24) | • Strategaeth Ddigidol 2021-2026 - Wedi'i lywodraethu gan y Bwrdd Strategaeth Ddigidol<br>• Rhaglen Gyfalaf / Cynllun Rheoli Asedau<br>• Wedi defnyddio datrysiadau digidol, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol a hysbysebion Google Ads, i gefnogi gyda'r gwaith o recriwtio gweithwyr cymdeithasol |

**SSgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Mae Strategaeth Ddigidol 2021-26 yn gosod gweledigaeth glir sy'n dangos awydd y Cyngor i arloesi a newid mewn byd digidol modern
- Mae model gweithio hybrid wedi cefnogi'r gwaith o addasu i reoli newid ac mae'n galluogi parhad i ddarparu gwasanaethau. Defnydd helaeth o gyfarfodydd dros y we sydd yn galluogi cydweithio gydag ystod o sefydliadau'n llwyddiannus

**Sgôr 3/4 – Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu**

- (E35) Cynhyrchu amgylchedd lle mae meddwl yn arloesol yn cael ei annog i greu effaith cadarnhaol

**Sgôr 3 - Tystiolaeth ond Angen Camau Gweithredu Pellach**

- (E39) Gwella mynediad hawdd at ddata ac adnoddau digidol sydd yn hwyluso ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio gan arwain at fwy o gynhyrchiant

# Thema F - Gweithio mewn Partneriaeth

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| F40 | Ydi'r Cyngor yn ymgysylltu'n dda mewn partneriaethau a chydweithrediadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol? | • Roedd llawer iawn o dystiolaeth mewn nifer o ddogfennau a oedd yn dangos ymgysylltiad yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Roedd enghreifftiau o'r dogfennau hyn yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - Cynllun Lles, Cynllun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd, Cynllun y Cyngor (2023-28), Datganiad Llywodraethu Blynyddol - Egwyddor B, Cod Llywodraethu Corfforaethol a Chynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol, gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg gyda Wrecsam |
| F41 | Pan ydym ni mewn partneriaethau, oes gennym ni drefniadau partneriaeth llywodraethu cadarn? | • Cytunwyd ar gylch gorchwyl clir lle bo angen er mwyn sicrhau eglurder y trefniadau llywodraethu. Er enghraifft, mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r trefniadau Llywodraethu ar gyfer y Bwrdd<br>• Y Bartneriaeth Ddysgu i Oedolion<br>• Bwrdd Rheoli Gweithredol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| F41 | Ydi partneriaid yn cyflawni eu hamcanion/canlyniadau? | • Roedd perfformiad partneriaid allweddol a chydweithio yn gryf<br>• Sefydlu grwpiau newydd i reoli materion sy'n dod i'r amlwg<br>• Llwyddiant o ran cyflawni nifer o gyllid grant |

**Sgôr 5 - Arfer Orau**

- Cymryd rhan mewn partneriaethau a chydweithrediadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

**Sgôr 4 / 5 - Arfer Orau / Tystiolaeth Dda**

- Portffolios yn cynrychioli'r Cyngor ar nifer o fyrddau, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol gan gynnwys Bwrdd Rheoli Gweithredol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

**Sgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Mae Cyllid Integreiddio Rhanbarthol yn nodi'n glir y llwyddiant a gyflawnwyd yn erbyn ei nodau a'i amcanion

# Thema G - Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| G43 | A oes gan y Cyngor gynlluniau a pholisïau cynhwysfawr a gynhelir ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid a'r gymuned? | • Mabwysiadwyd egwyddorion craidd ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn 2012 i danategu Egwyddorion Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd<br>• Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion<br>• Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu tystiolaeth o ymgysylltu gydag unigolion a chymunedau |
| G44 | A yw'r Cyngor yn defnyddio adborth cwsmeriaid a'r gymuned yn effeithiol wrth adolygu perfformiad a llunio gwasanaethau? | • Gwasanaethau yn ymgysylltu â chwsmeriaid a chymunedau i gael adborth ar berfformiad ac ysgogi gwelliannau i helpu i lunio gwasanaethau<br>• Arolwg ar gyfer Tenantiaid a Phreswylwyr (Arolwg STAR) wedi'i gynnal<br>• Polisi Pryderon a Chwynion |
| G45 | Pa mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio o ran cyrraedd ei safonau a thargedau gwasanaethau cwsmeriaid? | • Cafodd perfformiad yn erbyn Cwynion Corfforaethol ei fonitro a'i adrodd i'r Cabinet, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ogystal ag yn flynyddol yn llythyr blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r diweddariad hanner blwyddyn. Roedd Tîm y Prif Swyddogion yn cael adroddiadau perfformiad misol |
| G46 | Pa mor dda y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid wrth fframio polisïau ac wrth wneud penderfyniadau o ran polisïau gwasanaethau allweddol? | • Nodwyd bod ymgysylltu â budd-ddeiliaid allweddol megis partneriaid yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gweithio'n dda. Cafwyd tystiolaeth gref o weithio mewn partneriaeth, rheoli perthnasoedd a phartneriaethau ffurfiol ac anffurfiol<br>• Gweithdai gyda phartneriaid allanol i lywio polisi a datblygu strategaeth o ran Strategaeth Tai a Safon Ansawdd Tai Cymru<br>• Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu y Rhaglen Newid Hinsawdd |
| G47 | A oes prosesau ar waith i sicrhau bod y Cyngor yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn effeithiol? (newydd ar gyfer 23/24) | • Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br>• Ymgynghori â'r Gwasanaeth Ieuenctid - Beth sy'n Bwysig<br>• Ymgynghoriad Comisiynydd Plant - Bwlio, Trais Difrifol a Throseddu Cyfundrefnol - ymgynghoriad lleol/cenedlaethol |

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| G48 | A oes gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gyfleoedd i fod yn rhan o brosesau penderfynu a chynllunio a darparu gwasanaethau?<br>(newydd ar gyfer 23/24) | • Cyngor Ieuenctid ac Arweinwyr Ifanc Gwasanaeth Ieuenctid<br>• Defnyddio defnyddwyr gwasanaeth mewn cyfweliadau, e.e. Gwasanaeth Dilyniant<br>• Datblygu'r canolbwynt ymgynghori ac ymgysylltu<br>• Arolwg Rhent STAR<br>• Cynhelir arolygon ar lefel gwasanaeth |
| G49 | Pa mor fodlon yw preswylwyr â gwasanaethau, yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a sut caiff hyn ei fesur?<br>(newydd ar gyfer 23/24) | • Mae'r gwaith o ddatblygu'r Canolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu wedi dechrau, felly fe fyddwn ni'n gweld gwelliannau wrth ddeall pa mor fodlon ydi preswylwyr â gwasanaethau, yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a sut mae hyn yn cael ei fesur |
| G50 | A yw'r Cyngor yn casglu, yn rhannu ac yn cyhoeddi data a gwybodaeth berthnasol am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ynglŷn â'i gymunedau?<br>(newydd ar gyfer 23/24 | • Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC)<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol<br>• Defnyddio ffynonellau allanol (Data Cymru) |
| G51 | Sut mae gwybodaeth am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a'i defnyddio i ddynodi blaenoriaethau ar gyfer yr ardal leol?<br>(newydd ar gyfer 23/24) | • Wedi'i ddiweddaru yn adroddiadau a chynlluniau blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (bob 4 blynedd) a phan mae'r asesiad lles yn cael ei ddiweddaru<br>• Wedi'i gasglu drwy Upshot yn y Gwasanaeth Ieuenctid a'i ddefnyddio ar gyfer targedu darpariaeth/prosiectau<br>• Caiff gwybodaeth am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ei ddefnyddio wrth gynllunio gwasanaethau a strategaethau rhanbarthol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Sgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Caiff gwybodaeth am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn Cyfiawnder Ieuenctid ei ddefnyddio i dargedu darpariaeth ac mae'n cynnwys adnabod nodweddion gwarchodedig a data sy'n gysylltiedig â chymunedau
- Mae ymgysylltu ac ymgynghori ar lefelau gwasanaeth yn digwydd yn aml i gefnogi a llywio adolygu perfformiad a siapio gwasanaethau

**Sgôr 3 - Tystiolaeth ond Angen Camau Gweithredu Pellach**

- (G43) a (G45) Llunio strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu i wella ymgynghori, cyfranogiad ac ymgysylltu ar draws y Cyngor
- (G47) a (G48) Datblygu proses sicrhau ansawdd ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig sydd yn sicrhau yr ymgysylltir ac ymgynghorir â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i lywio penderfyniadau
- (G51) Sicrhau bod data ar gael yn fwy hygyrch er mwyn i Swyddogion allu cael mynediad at yr hyn sydd ei angen arnynt, pan mae ei angen arnynt

**Sgôr 2/3 - Peth tystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol/ Angen camau gweithredu pellach**

- (G49) a (G50) Sicrhau bod gan wasanaethau brosesau ar waith i gasglu a defnyddio data monitro cydraddoldeb a sefydlu dull o rannu data cydraddoldeb ar draws y Cyngor

# Thema H -
# Rheoli Risg a Pharhad Busnes

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| H52 | A oes gan y Cyngor strategaethau cynhwysfawr a gynhelir ar gyfer rheoli risg a pharhad busnes ar waith sydd yn llywio penderfyniadau? (diwygiwyd 23/24) | • Mae Fframwaith Rheoli Risg yn cael ei adolygu'n flynyddol, a'i ddiweddaru yn unol â hynny, ac fe gafodd ei adolygu ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2023 a'i gymeradwyo ym Mhwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2024. Dogfen fyw yw'r Weithdrefn Risg ac mae'n cael ei hadolygu a'i diweddaru'n aml<br>• Mae llunio Cofrestr Risg ar gyfer pob portffolio yn y System Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rheoli Risg wedi galluogi monitro ac adrodd risgiau i gael ei gydlynu ac i fod yn ganolog<br>• Cynhyrchir adroddiadau risg yn fisol ar gyfer Tîm Portffolios a Phrif Swyddogion |
| H53 | A yw'r strategaethau hyn wedi bod yn effeithiol mewn sefyllfaoedd amser real a/neu sefyllfaoedd prawf? | • Nid yw cofrestri risg adfer yn ofynnol bellach ers dod allan o'r pandemig, ond parhawyd i reoli a chynnal cofrestrau risg portffolios drwy gydol 2022/23 |
| H54 | A yw'r strategaethau hyn yn ddeinamig o ran addasu i newid a sicrhau gwytnwch ar gyfer y dyfodol? | • Adolygwyd y Fframwaith Rheoli Risg a'i rannu â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w adolygu a chytuno ar y fframwaith. Mae datblygiad yn digwydd yn flynyddol er mwyn sicrhau bod y tueddiadau diweddaraf ac arfer gorau yn cael eu cynnal<br>• Mae modiwl E-ddysgu Rheoli Risg wedi cael ei ddatblygu ac mae wrthi'n cael ei gwblhau. Fe fydd y modiwl E-ddysgu yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2024 |
| H55 | A oes digon o sicrwydd gan yr Adain Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill ar berfformiad o ran dyletswyddau statudol a chyflawni amcanion? (newydd ar gyfer 23/24) | • Arolwg cadarnhaol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol gan Arolygiaeth Gofal Cymru 2023/24<br>• Adroddiadau Archwilio Cymru<br>• Adroddiad rheoleiddio allanol blynyddol<br>• Estyn<br>• Adroddiadau archwilio mewnol<br>• Adrodd yn aml i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adroddiadau rheoleiddio |

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| H56 | A yw data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i adnabod risgiau ac arwain at welliant? (newydd ar gyfer 23/24) | • Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data<br>• Defnyddio sefydliadau i gynorthwyo â meincnodi, h.y. Data Cymru<br>• Caiff data ei gasglu i gefnogi a dangos tystiolaeth o gyflawni amcanion portffolio ac fe gaiff ei ddefnyddio i fonitro risgiau strategol a gweithredol |
| H57 | A oes yna ddealltwriaeth a rennir a barn gyffredin o risgiau a pharodrwydd i dderbyn risg? (newydd ar gyfer 23/24) | • Mae Fframwaith/Gweithdrefn Rheoli Risg yn ystyried parodrwydd i dderbyn risg<br>• Caiff risgiau eu hadrodd yn aml er mwyn sicrhau dealltwriaeth a rennir a barn gyffredin o risgiau |

**Sgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Cymeradwywyd y Fframwaith Rheoli Risg gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Mae llunio Cofrestr Risg ar gyfer pob portffolio yn y System Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rheoli Risg wedi galluogi monitro ac adrodd risgiau i gael ei gydlynu ac i fod yn ganolog

**Sgôr 3/4 - Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu**

- (H57) Lefel cynyddol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o reoli risg /risgiau/ parodrwydd i dderbyn risg ar draws y Cyngor trwy ddatblygiad a chyflwyniad modiwl e-ddysgu rheoli risg.

**Sgôr 3 - Tystiolaeth ond Angen Camau Gweithredu Pellach**

- (H56) Defnyddio mwy ar ddata (mewnol ac allanol) i adnabod risgiau i gefnogi â gyrru gwelliant ar draws y Cyngor

# Thema I -
# Newid Hinsawdd (Thema Newydd 23/24)

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| I58 | Sut mae'r Cyngor yn cefnogi ac yn cyfarwyddo gweithredu ar newid hinsawdd? | • Cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth Newid Hinsawdd ym mis Chwefror 2022, sydd yn manylu sut y bydd yn lleihau ei allyriadau carbon, gan anelu at fod yn Sero Net erbyn 2030<br>• Digwyddiadau hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth<br>• Gweithgorau i gefnogi themâu manwl yn y Strategaeth Newid Hinsawdd |
| I59 | Sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i leihau effaith newid hinsawdd? | • Technoleg ynni-effeithlon<br>• Ymgysylltu â thenantiaid ac ysgolion cynradd<br>• Modiwl e-ddysgu<br>• Cyfeiriad clir ac ymgysylltu gyda phartneriaid a budd-ddeiliaid |
| I60 | Beth yw agwedd y Cyngor at fesurau lliniaru newid hinsawdd mewn perthynas â'i weithrediadau ei hunan? | • Mae Strategaeth Pobl, Strategaeth Ddigidol yn cyfrannu ac mae'r gweithredoedd yn cyd-fynd ag agwedd y Cyngor tuag at newid hinsawdd<br>• Mae Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n manylu sut y bydd allyriadau'n cael eu lleihau ar draws pum thema; Adeiladau, Symudedd a Chludiant, Caffael, Defnydd Tir ac Ymddygiad |
| I61 | A yw'r Cyngor yn deall ac yn derbyn perchnogaeth dros ymrwymiadau sero net 2030 yn Sero Net Cymru? | • Datblygiad ar draws y Cyngor a datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd<br>• Rhaglen hyfforddiant strwythuredig wedi'i llunio<br>• Mae Aelodau ac uwch arweinwyr wedi cael hyfforddiant llythrennedd carbon i godi ymwybyddiaeth |
| I62 | Sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at darged sero net erbyn 2050 ar draws ei gymuned gyfan? | • Mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus yn ogystal â busnesau yn y sector preifat i ymgysylltu, awdurdodi a dylanwadu ar leihau carbon<br>• Mae'r rhaglen Newid Hinsawdd yn cynnwys cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu sydd yn sicrhau yr ymgysylltir â grwpiau budd-ddeiliaid allweddol a'u bod yn cael gwybodaeth a chefnogaeth i leihau eu heffeithiau carbon<br>• Fe lansiwyd pecynnau gwaith hinsawdd i addysgu ac awdurdodi yn 2023/24 |

| Cwestiwn | | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|---|
| I63 | Beth yw'r ymagwedd o ran addasu a datblygu gwydnwch lleol ar gyfer newid hinsawdd? | • Fe fydd adolygiad Newid Hinsawdd yn cynnwys risg a gwytnwch hinsawdd i lywio strategaeth newydd<br>• Gallu gweithio'n hybrid<br>• Polisi Tywydd Garw<br>• Caiff mesurau risg hinsawdd ac addasiadau eu cynnal ar draws y Cyngor |
| I64 | I ba raddau y mae'r camau lliniaru ac addasu sy'n ymwneud â newid hinsawdd wedi'u blaenoriaethu ac yn cyd-fynd â strategaeth ariannol y Cyngor? | • Strategaeth Newid Hinsawdd<br>• Digwyddiadau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth newid hinsawdd<br>• Prosesau adrodd a chraffu sefydledig ar waith<br>• Rhaglenni wedi'u sefydlu yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig |
| I65 | Ydi'r Cyngor yn gallu dangos tystiolaeth o'i adroddiadau ar ei allyriadau ei hun hyd yma, yn unol â chanllawiau adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus? | • Mae'r Cyngor yn cyfrifo ei allyriadau sy'n gysylltiedig â Chanllaw Adrodd Sero Net y Sector Cyhoeddus ac yn adrodd y wybodaeth ddiweddaraf am Ôl-troed Carbon yn flynyddol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi, a'r Cabinet. |
| I66 | A gymerir unrhyw gamau i gofnodi, monitro ac adrodd ar gynnydd gyda gostyngiadau mewn allyriadau yn y gymuned ehangach? | • Cymryd rhan mewn gweithgorau cenedlaethol i archwilio datblygiad adnoddau Adrodd Carbon Gofal Cymdeithasol i'w defnyddio gyda darparwyr gofal cymdeithasol<br>• Pecynnau adnoddau hinsawdd<br>• Mae Cadwch Brydain yn Daclus yn rhoi gwybod i'r Cyngor am yr Ysgolion sy'n defnyddio eu cyfrifiannell carbon 'Count your Carbon' a beth ydi'r allyriadau |
| I67 | A yw newid hinsawdd yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau tymor canolig a hir dymor ac a oes yna ddigon o adnoddau ar gyfer gweithredoedd wedi'u cynllunio ar liniaru ac addasu i newid hinsawdd, a pa rai fydd yn cael yr effaith fwyaf? | • Mae'r Strategaeth Newid Hinsawdd a chynllun gweithredu yn manylu ar y gweithredoedd tymor byr, tymor canolig a hir dymor i gyflawni Carbon Sero Net<br>• Caiff cynlluniau gweithredu eu monitro gan weithgorau, a'u hadrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Pwyllgor Craffu a'r Cabinet |

**Sgôr 4 - Tystiolaeth Dda**

- Strategaeth Newid Hinsawdd
- Digwyddiadau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth newid hinsawdd
- Rhaglenni wedi'u sefydlu yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

**Sgôr 3/4 - Tystiolaeth dda / Efallai y bydd angen camau gweithredu**

- (I62) a (I66) Hwyluso hyfforddiant wedi'i achredu a heb ei achredu i Aelodau a Swyddogion i wella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau newid hinsawdd. Monitro ac adrodd ar leihau allyriadau yn y gymuned ehangach

**Sgôr 3 - Tystiolaeth ond Angen Camau Gweithredu Pellach**

- I59), (I60), (I61), (I64) a (I67) - Adolygu'r Strategaeth Newid Hinsawdd. Adolygu ymrwymiadau presennol y Cyngor. **Thema I – Newid Hinsawdd (Thema Newydd 23/24)**

**Sgôr 2 - Peth Tystiolaeth ond Diffyg mewn Meysydd Allweddol**

- (I63) Ystyried sut allwn ni weithio'n well gyda'n partneriaid a'r gymuned i leihau effaith newid hinsawdd, yn ogystal â mesurau lliniaru ar gyfer gweithrediadau'r Cyngor ei hun

# 10. Cynnydd ar Gyfleoedd ar gyfer Gwella o 2022/23

| Cyfle ar gyfer Gwella 2022/23 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Adolygiad o'r Cynnydd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Edrych ar strategaethau'r gweithlu i ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth gynllunio adnoddau ac ymateb i heriau recriwtio<br><br>2) Goruchwyliaeth gorfforaethol o bob polisi a strategaeth ar gyfer pob Portffolio, gan greu rhaglen waith strwythuredig sy'n manylu ar gyfnod adolygu'r polisïau a'r strategaethau<br><br>3) 3) Pennu effeithiolrwydd polisïau a strategaethau drwy eu halinio â chwestiwn y 'Thema' (B13) | Mawrth 2024<br><br>Medi 2024<br><br>Medi 2024 | B) Cynllunio a Rheoli Adnoddau - *A yw'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu ategol hyn yn gynaliadwy, ac yn ddeinamig, wrth addasu i newid a'r dyfodol? (B13 rŵan yn B19 ers 23/24)* | Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol<br><br>Archwilio Mewnol, Rheolwr Perfformiad a Risg / Ymgynghorydd Perfformiad Strategol<br><br>Archwilio Mewnol, Rheolwr Perfformiad a Risg / Ymgynghorydd Perfformiad Stratego | **Oren** | 1) Fel y cynghorir yn Adran 7, o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28, mae recriwtio a chadw yn faes ffocws allweddol fel rhan o'r flaenoriaeth 'Pobl'. Mae Fframwaith Cynllunio Gweithlu ar ei ffurf drafft - unwaith y bydd wedi'i gwblhau a'i weithredu bydd yn darparu dull cyson. Yn y cyfamser, mae Portffolios yn cael eu hadroddiad sefydliad ( data am bobl yn fisol ac adroddiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bob chwarter sy'n galluogi rheolwyr i edrych ar ddata gweithwyr, yn cynnwys dadansoddiad o oedran a chymharu'n bositif ein demograffeg fel Cyngor gyda gwybodaeth o'r cyfrifiad. Mae'r gwaith o ddatblygu model cyflogau cynaliadwy sydd yn cydymffurfio ac yn gynaliadwy yn datblygu'n gadarnhaol. Mae angen cytuno ar ddyddiad targed newydd i weithredu gyda'r Cabinet<br>2) Mae Fframwaith Polisi drafft wedi cael ei lunio. Mae Rhaglen |

| Cyfle ar gyfer Gwella 2022/23 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Adolygiad o'r Cynnydd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Oren** | Waith strwythuredig i lunio trosolwg corfforaethol o strategaethau a pholisïau yn y camau cychwynnol<br>3) Gan fod y maes yma o waith dal yn y camau cychwynnol, fe fydd sicrhau bod strategaethau/polisïau yn gynaliadwy ac yn ddeinamig wrth addasu i newid a'r dyfodol yn dechrau yng nghamau adolygu/datblygu strategaeth/polisi. Mae yna hefyd gysylltiadau i Asesiadau Effaith Integredig |
| 1) Sefydlu moeseg a gwerthoedd clir ar gyfer y sefydliad<br><br>2) Ymgysylltu â'r gweithlu i bennu moeseg a gwerthoedd y Cyngor<br><br>3) Rhaid i bob polisi, strategaeth a phroses gyd-fynd â moeseg a gwerthoedd y Cyngor (mae hyn hefyd yn gysylltiedig â Thema B, cwestiwn B13) | Rhagfyr 2023<br><br>Rhagfyr 2023 (cwblhawyd)<br><br>Medi 2024 | C) Llywodraethu Sefydliadol, Moeseg a Gwerthoedd - *Pa mor dda y caiff y fframweithiau a'r codau hyn eu cymhwyso a'u dilyn? (C15 rŵan yn C24 ers 23/24)* | Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol<br><br>Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol<br><br>Archwilio Mewnol, Rheolwr Perfformiad a Risg / Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | **Oren** | 1) Mae moeseg a gwerthoedd y Cyngor wedi'u datblygu ac mae angen eu cymeradwyo a'u mabwysiadu'n derfynol rŵan<br><br>2) Yn dilyn ymgysylltu gyda'r gweithlu yn ystod misoedd haf 2023, cafwyd adborth cadarnhaol oedd yn cefnogi'r gwerthoedd sefydliadol arfaethedig<br><br>3) Mae Rhaglen waith strwythuredig i ddatblygu trosolwg corfforaethol o strategaethau a pholisïau yn y camau cychwynnol, ond yn rhan o'r gwaith yma, fe fydd alinio â moeseg a gwerthoedd y Cyngor yn ffurfio rhan o hyn |

| Cyfle ar gyfer Gwella 2022/23 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Adolygiad o'r Cynnydd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Ymgorffori moeseg a gwerthoedd o fewn y strwythur sefydliadol a'r strwythur gweithio | Medi 2024 | D) Arweinyddiaeth a Strwythur Sefydliadol - *A oes gan y Cyngor strwythur sefydliadol a fabwysiadwyd a diwylliant gweithio dewisol? (D20 rŵan yn D29 ers 23/24)* | Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol | Oren | 1) Adolygu polisïau perthnasol gan gynnwys polisi Gweithio Hybrid |
| 2) Gweithredu dull talu newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio (mae hyn hefyd yn gysylltiedig â Thema B, cwestiwn B13) | Mawrth 2024 | | Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol | | 2) Dechreuodd y gwaith ym mis Hydref 2023 ac mae wedi parhau mewn i 2024. Mae model a ffefrir yn dod i'r amlwg, ond mae angen rhagor o waith er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn bodloni profion cyfreithiol, cynaliadwy a fforddiadwy |
| 3) Cwblhau Fframwaith Cynllunio'r Gweithlu (mae hyn hefyd yn gysylltiedig â Thema B, cwestiwn B13) | Rhagfyr 2023 | | Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol | | 3) Mae Fframwaith Cynllunio Gweithlu drafft wedi cael ei lunio. Fel y nodir yn Adran A, mae data gweithwyr ar gael er mwyn i reolwyr ymgymryd â gwaith cynllunio gweithlu (yn cynnwys cynllunio olyniaeth) |
| 4) Mae angen diffinio'r diwylliant gweithio a ffefrir drwy ymgynghori ac adolygu polisïau | Rhagfyr 2023 | | | | 4) Yn dilyn ymgysylltu gyda'r gweithlu yn ystod misoedd haf 2023, cafwyd adborth cadarnhaol oedd yn cefnogi'r gwerthoedd sefydliadol arfaethedig. Fe fydd galluogi i bolisïau perthnasol, yn cynnwys Polisi Gweithio'n Hybrid i fod yn effeithiol, yn golygu bod angen adolygiad a monitro parhaus |

| Cyfle ar gyfer Gwella 2022/23 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Adolygiad o'r Cynnydd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Gwella a gwreiddio diwylliant perfformiad drwy ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad | Mawrth 2024 | D) Arweinyddiaeth a Strwythur Sefydliadol - *A yw'n amlwg mai'r diwylliant gwaith a ffefrir sydd drechaf, ac a yw'n effeithiol? (D22 rŵan yn D31 ers 2023/24))* | Archwilio Mewnol, Rheolwr Perfformiad a Risg / Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | Coch | 1) Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad yn hwyr. Mae gwaith ymchwi l cychwynnol a strwythur y Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi cael ei wneud, ond mae dal angen drafftio'r fframwaith |
| 1) Sefydlu tudalen Facebook gorfforaethol a datblygu defnydd o gyfryngau cymdeithasol fel modd o gyfathrebu<br>2) Siarter ar gyfer cyfathrebu yn manylu ar ddisgwyliadau cwsmeriaid o'r Cyngor ac i'r gwrthwyneb. Sefydlu amseroedd ymateb realistig a hylaw yn ogystal â safon o foesgarwch<br>3) Creu polisi corfforaethol ar ymgynghori ac ymgysylltu â chynlluniau blynyddol yr ymgynghoriadau arfaethedig | Mawrth 2024 | G) Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned - *- A oes gan y Cyngor gynlluniau a pholisïau cynhwysfawr a gynhelir ar gyfer ymgysylltu â chwsmeriaid a'r gymuned? (G29 rŵan yn G43 ers 23/24)* | Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid / Rheolwr Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chyfathrebu | Oren | 1) Fe lansiwyd tudalen gorfforaethol y Cyngor ar Facebook yn gynnar yn 2024 ac mae'n cael ei ddefnyddio'n aml i rannu gwybodaeth, yn cynnwys newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth mewn argyfwng. Mae cyfrifon Cymraeg a Saesneg yn cael eu rheoli gan Wasanaethau i Gwsmeriaid ac mae dros 4,000 yn dilyn y dudalen<br>2) Mae adolygiad o Bolisi Gwasanaeth i Gwsmeriaid a siarter ar gyfer cyfathrebu yn mynd rhagddo. Bydd canlyniad yr adolygiad yma'n cael ei gyhoeddi ar Ganolbwynti Ymgynghori ac Ymgysylltu sydd newydd ei lansio er mwyn gofyn am adborth gan gwsmeriaid |

| Cyfle ar gyfer Gwella 2022/23 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Adolygiad o'r Cynnydd 2023/24 |
|---|---|---|---|---|---|
| 4) Adolygu canllawiau safonau cwsmeriaid yn gorfforaethol | | | | **Oren** | 3) Mae polisi corfforaethol ar ymgynghori ac ymgysylltu wedi cael ei ddrafftio ac fe fydd yn cae ei rannu ar Ganolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu sydd newydd ei lansio er mwyn gofyn am adborth gan gwsmeriaid<br>4) Mae adolygiad o safonau cwsmeriaid corfforaethol yn cysylltu â phwynt 2 ac fe fydd yn cael ei adolygu |
| 1) Ymgysylltu a chynnwys cwsmeriaid fel rhan o'r broses adolygu<br>2) Datblygu un system ar gyfer goruchwylio ymgysylltiad â chwsmeriaid<br>3) Gwella darpariaeth gwasanaethau drwy gasglu data, adborth a meincnodi | Mawrth 2024 | G) Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned - *Pa mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio o ran cyrraedd ei safonau a thargedau gwasanaethau cwsmeriaid? (G31 rŵan yn G45 ers 23/24)* | Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid / Rheolwr Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chyfathrebu | **Oren** | 1) Ymgynghori â chwsmeriaid ar bolisi ymgynghori ac ymgysylltu corfforaethol drwy'r Canolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu<br>2) Sicrhawyd cyfalaf yn 2023/24 i gaffael datrysiad trydydd parti er mwyn cynnal ymgynghoriad ac ymgysylltiad y Cyngor ond mae'r gwaith ar stop am y tro yn sgil Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Fe ddatblygwyd a lansiwyd datrysiad lleol ar wefan y Cyngor fel dewis arall<br>3) Gwell data perfformiad cwynion yn cael ei rannu â phortffolios er mwyn adolygu tueddiadau a dysgu o gwynion |

# 11. Cyfleoedd ar gyfer Gwella yn 2023/24

Fe fu'r Tîm Perfformiad a Rheoli Risg yn ymgysylltu â'r Portffolios i lenwi'r Hunanasesiad. Yn seiliedig ar yr ystod o gwestiynau a ofynnwyd yn erbyn y naw Thema, ystyrir bod y Cyngor:

a) Yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol,
b) Yn defnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac
c) Yn llywodraethu'n effeithiol o ran sicrhau'r materion a amlinellir ym mhwyntiau (a) a (b).

Mae hyn yn gyson â Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor a'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2023/24. Mae yna bob amser feysydd lle'r ydym yn ymdrechu i wella, a chafodd y rhestr ganlynol o gyfleoedd ar gyfer gwella eu nodi yn 2023/24.

Yn ystod 2023/24, ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Rheoli ac aelodau o'r Cabinet, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Galluogodd hyn i bob un o'r Themâu gael eu hadolygu'n feirniadol ac, o ganlyniad, mae'r Cyngor wedi nodi 11 maes i'w gwella, wedi'u rhannu i weithredoedd penodol ar gyfer pob maes. Roedd rhai o'r meysydd hyn hefyd yn Gyfleoedd i Wella 2022/23, gyda'r rhain yn nodau tymor canolig a/neu hirdymor.

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Gwella a gwreiddio diwylliant perfformiad drwy ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad (Yn cysylltu i D31)<br><br>2) Cynigir a darperir sesiynau hyfforddi gan DataCymru i bob Aelod Etholedig er mwyn gwella dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio data yng ngwaith pwyllgorau i hwyluso gwelliannau. Darparu hyfforddiant i bob aelod (arferol) o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, er | Rhagfyr 2024<br><br>Mawrth 2025 | A) Gweledigaeth, Strategaeth a Pherfformiad<br>*A11 A yw data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i werthuso perfformiad ac arwain at welliant?*<br>*A12 A oes tystiolaeth o ddull sefydledig a pharhaus o reoli perfformiad,* | Archwilio Mewnol, Rheolwr Perfformiad a Risg / Ymgynghorydd Perfformiad Strategol<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | Coch | 1) Mae'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Rheoli Perfformiad ar ei hôl hi yn sgil yr adnoddau sydd ar gael a blaenoriaethau sydd yn gwrthdaro. Mae gwaith ymchwil cychwynnol a strwythur y Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi cael ei wneud, ond mae dal angen drafftio'r fframwaith<br><br>2) Caiff cyfleoedd hyfforddi eu darparu i Aelodau a lle y bo'n berthnasol, |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| mwyn sicrhau eu bod yn deall eu rôl a rôl y Pwyllgor, i gynnwys sgiliau cwestiynu effeithiol (perfformiad, risg, data).<br><br>3) Adolygu templed adrodd y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod rheoli risg yn elfen allweddol o'r adroddiad. | Ionawr 2025 | *sy'n dynodi'r ymyraethau angenrheidiol a bod y rheiny'n cael eu gweithredu heb oedi?*<br>*A13 A yw cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys gwerthusiad o berfformiad gwasanaeth (gan gynnwys archwiliad a chwynion/ canmoliaeth) i ddod o hyd i feysydd i'w gwella ac a yw'r rhain yn cyd-fynd ag amcanion gwella corfforaethol?*<br>D) Arweinyddiaeth a Strwythur Sefydliadol<br>*D31) A yw'n amlwg mai'r diwylliant gwaith a ffefrir sydd drechaf, ac a yw'n effeithiol?* | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | Coch | bydd y Cyngor yn parhau i drafod gyda Data Cymru am gyfleoedd hyfforddiant pellach. Caiff hyfforddiant sgiliau Cadeirio effeithiol ei ddarparu i holl Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau, yn cynnwys hwyluso trafodaeth a her. Fe fydd yna sesiynau ar wahân maes o law i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i ganolbwyntio ar risg a pherfformiad. Parhau i sicrhau bod Aelodau Etholedig yn herio a chefnogi'r Cyngor yn briodol yn rhan o'r broses Trosolwg a Chraffu<br><br>3) Dyma gyfle newydd ar gyfer gwelliant yn Hunanasesiad Corfforaethol eleni, felly mae yn y camau cychwynnol. Serch hynny, mae pob pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn monitro risg a nodwyd yn rhan o'u harfer gweithio arferol, ac efallai yn cadw cofnod yn rhan o'u helfen Rhaglen Waith |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 4) Datblygu Grŵp Rheoli Gwybodaeth a Data, i wella defnydd y Cyngor o ddata ac i weithredu a gweithredu y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data ymhellach. | Rhagfyr 2024 | H) Rheoli Risg a Pharhad Busnes<br>*H56) A yw data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i adnabod risgiau ac arwain at welliant?*<br><br>E) Arloesi a Rheoli Newid<br>*E35) A oes gan y Cyngor awydd profedig i arloesi a rheoli newid?*<br>*E39) Ydi'r Cyngor yn defnyddio adnoddau digidol, data a strategaethau i hwyluso trawsnewid, cefnogi amcanion corfforaethol a gyrru gwelliant yn barhaus?* | Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth | **Coch** | 4) Mae Cylch Gorchwyl yn cael ei lunio ar gyfer y Grŵp Rheoli Gwybodaeth a Data, ond bydd nodau ac amcanion y grŵp yn cynnwys:<br>• Byddwn yn trin gwybodaeth a data fel ased corfforaethol allweddol er mwyn cefnogi i wneud penderfyniadau gwell a'r defnydd gorau o adnoddau<br>• Byddwn yn defnyddio gwybodaeth a data'n fwy effeithiol ac arloesol i gyflawni gwasanaeth gwell, di-dor gyda chanlyniadau gwell<br>• I bobl a sefydliadau gael hyder llwyr y bydd eu gwybodaeth a'u data'n cael eu trin yn gyfrifol, yn ddiogel ac yn foesegol, yn unol â deddfwriaeth briodol ac arfer gorau'r diwydiant<br>• Gwella'r gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid drwy weithio gyda'n gilydd a sicrhau y defnyddir gwybodaeth a data'r Cyngor yn effeithiol, mewn ffordd drefnus a diogel a'u bod yn cyrraedd y sawl sydd eu hangen |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Diweddaru'r Canllaw i ysgrifennu adroddiadau a thempled adroddiadau Pwyllgor gyda gwybodaeth ffres am Asesiadau Effaith Integredig.<br><br>2) Rhoi proses ar waith er mwyn sicrhau bod adroddiadau Pwyllgor ar bolisïau/ cynlluniau/prosiectau yn cynnwys asesiadau effaith. | Ionawr 2025<br><br>Ionawr 2025 | A) Gweledigaeth, Strategaeth a Pherfformiad *A7) A wneir strategaethau a phenderfyniadau ar ôl cynnal Asesiadau Effaith Integredig (lle bo'n berthnasol)?* | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | **Coch** | 1) Dyma gyfle newydd ar gyfer gwelliant yn Hunanasesiad Corfforaethol eleni, felly mae yn y camau cychwynnol<br>2) Mae adolygu templed a chanllaw adrodd er mwyn sicrhau y bydd Asesiad Effaith Integredig yn elfen allweddol o'r broses adrodd a fydd yn cael ei chynnal. Mae pob pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn monitro Asesiadau Effaith Integredig yn rhan o'u harferion gweithio arferol, ac efallai yn cadw cofnod yn rhan o'u helfen Rhaglen Waith. Rhoi hyfforddiant ar Asesiad Effaith Integredig i bwyllgorau - e.e. beth ydyn nhw, pam eu bod yn cael eu cynnwys, beth i gadw llygad amdano |
| 1) Edrych ar strategaethau'r gweithlu i ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth gynllunio adnoddau ac ymateb i heriau recriwtio | Mae angen cytuno ar ddyddiad targed newydd i weithredu gyda'r Cabinet. | B) Cynllunio a Rheoli Adnoddau *B15) Oes gan y Cyngor strategaethau cynhwysfawr a gynhelir ar waith ar gyfer gweithlu, cyllid, caffael ac* | Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol | **Oren** | 1) Fel y cynghorir yn Adran 7, o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28, mae recriwtio a chadw yn faes ffocws allweddol fel rhan o'r flaenoriaeth 'Pobl'. Mae Fframwaith Cynllunio Gweithlu ar ei ffurf drafft - unwaith y bydd wedi'i gwblhau a'i weithredu bydd yn darparu dull cyson. Yn y cyfamser, mae Portffolios yn cael eu |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 2) Goruchwyliaeth gorfforaethol o bob polisi a strategaeth ar gyfer pob Portffolio, gan greu rhaglen waith strwythuredig sy'n manylu ar gyfnod adolygu'r polisïau a'r strategaethau<br><br>3) Pennu effeithiolrwydd polisïau a strategaethau drwy eu halinio â chwestiwn y 'Thema' (B19)<br><br>4) Sefydlu moeseg a gwerthoedd clir ar gyfer y sefydliad. Bydd cwblhau Gweledigaeth a Gwerthoedd y Cyngor yn helpu i ddiffinio ac atgyfnerthu golau'r Cyngor. | Rhagfyr 2024<br><br>Rhagfyr 2024<br><br>Rhagfyr 2024 | *asedau, sydd yn cyd-fynd â chylch cynllunio'r gyllideb statudol (sy'n dangos sut bydd y Cyngor yn cynnal darpariaeth gwasanaeth)?*<br>*B16) A oes gan y Cyngor strategaethau cynhwysfawr a gynhelir ar waith ar gyfer gweithlu, cyllid, caffael ac asedau, sy'n cael eu rheoli i gefnogi agendâu ehangach (gwariant ar gyfer lles cymunedol, gwerth cymdeithasol, datblygu lleoedd, prinder tai, ac adfywio)?*<br>*B19) A yw'r strategaethau a'r cynlluniau* | Archwilio Mewnol, Rheolwr Perfformiad a Risg / Ymgynghorydd Perfformiad Strategol<br><br>Archwilio Mewnol, Rheolwr Perfformiad a Risg / Ymgynghorydd Perfformiad Strategol<br><br>Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol | **Oren** | hadroddiad sefydliad (data am bobl) yn fisol ac adroddiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant bob chwarter sy'n galluogi rheolwyr i edrych ar ddata gweithwyr, yn cynnwys dadansoddiad o oedran a chymharu'n bositif ein demograffeg fel Cyngor gyda gwybodaeth o'r cyfrifiad. Mae'r gwaith o ddatblygu model cyflogau cynaliadwy sydd yn cydymffurfio ac yn gynaliadwy yn datblygu'n gadarnhaol. Mae angen cytuno ar ddyddiad targed newydd i weithredu gyda'r Cabinet<br><br>2) Mae Fframwaith Polisi drafft wedi cael ei lunio. Mae Rhaglen Waith strwythuredig i lunio trosolwg corfforaethol o strategaethau a pholisïau yn y camau cychwynnol<br><br>3) Gan fod y maes yma o waith dal yn y camau cychwynnol, fe fydd sicrhau bod strategaethau/polisïau yn gynaliadwy ac yn ddeinamig wrth addasu i newid a'r dyfodol yn dechrau yng nghamau adolygu/ datblygu strategaeth/polisi. Mae |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 5) Rhaid i bob polisi, strategaeth a phroses gyd-fynd â moeseg a gwerthoedd y Cyngor (mae hyn hefyd yn gysylltiedig â Thema B, cwestiwn B19) | Rhagfyr 2024 | *gweithredu ategol hyn yn gynaliadwy, ac yn ddeinamig, wrth addasu i newid a'r dyfodol?*<br>C) Llywodraethu Sefydliadol, Moeseg a Gwerthoedd *C24) Pa mor dda y caiff y fframweithiau a'r codau hyn eu rhoi ar waith a'u dilyn?*<br><br>D) Arweinyddiaeth a Strwythur Sefydliadol *D30) Fel sefydliad, ydym ni'n gweithredu fel un Cyngor?* | Archwilio Mewnol, Rheolwr Perfformiad a Risg / Ymgynghorydd Perfformiad Strategol | **Oren** | yna hefyd gysylltiadau i Asesiadau Effaith Integredig (Thema A)<br><br>4) Mae moeseg a gwerthoedd y Cyngor wedi'u datblygu ac mae angen eu cymeradwyo a'u mabwysiadu'n derfynol rŵan<br><br>5) Mae Rhaglen waith strwythuredig i ddatblygu trosolwg corfforaethol o strategaethau a pholisïau yn y camau cychwynnol, ond yn rhan o'r gwaith yma, fe fydd alinio â moeseg a gwerthoedd y Cyngor yn ffurfio rhan o hyn |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1) Edrych ar strategaethau'r gweithlu i ganiatáu mwy o hyblygrwydd wrth gynllunio adnoddau ac ymateb i heriau recriwtio drwy adolygu model cyflogau<br><br>2) Llunio Fframwaith Cynllunio Gweithlu | Mae angen cytuno ar ddyddiad targed newydd i weithredu gyda'r Cabinet.<br><br>Rhagfyr 2024 | *B) Cynllunio a Rheoli Adnoddau* *B21) A ydi'r Cyngor yn ystyried cadw staff, ac anghenion a bylchau sgiliau presennol ac yn y dyfodol?*<br><br>B) Resource Planning and Management *B21) Does the Council consider staff retention, current and future skills needs and gaps?* | Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol<br><br>Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol | **Oren** | 1) Yn sgil pwysau cyllidebol presennol a rheoli swyddi gwag, sy'n effeithio ar gynaliadwyedd (Pum Ffordd o Weithio, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) mae gwaith yn parhau o ran adolygu'r model cyflogau. Mae gweithdai wedi cael eu cynnal gydag Aelodau i adolygu dewisiadau model cyflogau a'r costau ynghlwm<br><br>2) Fel y cynghorir yn Adran 7, o fewn Cynllun y Cyngor 2023-28, mae recriwtio a chadw yn faes ffocws allweddol fel rhan o'r flaenoriaeth 'Pobl'. Mae Fframwaith Cynllunio Gweithlu ar ei ffurf drafft - unwaith y bydd wedi'i gwblhau a'i weithredu bydd yn darparu dull cyson |
| 1) Siarter ar gyfer cyfathrebu yn manylu ar ddisgwyliadau cwsmeriaid o'r Cyngor ac i'r gwrthwyneb. Sefydlu amseroedd ymateb realistig a hylaw yn ogystal â safon o foesgarwch | Rhagfyr 2024 | G - Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned *(G43) A oes gan y Cyngor gynlluniau a pholisïau cynhwysfawr a gynhelir ar gyfer ymgysylltu â* | Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid / Rheolwr Gwasanaeth i Gwsmeriaid a Chyfathrebu | **Oren** | 1) Mae adolygiad o Bolisi Gwasanaeth i Gwsmeriaid a siarter ar gyfer cyfathrebu yn mynd rhagddo. Bydd canlyniad yr adolygiad yma'n cael ei gyhoeddi ar Ganolbwynti Ymgynghori ac Ymgysylltu sydd newydd ei lansio er mwyn gofyn am adborth gan gwsmeriaid |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 2) Creu polisi corfforaethol ar ymgynghori ac ymgysylltu â chynlluniau blynyddol yr ymgynghoriadau arfaethedig<br><br>3) Adolygu canllawiau safonau cwsmeriaid yn gorfforaethol | Ionawr 2025<br><br>Ionawr 2025 | *chwsmeriaid a'r gymuned?*<br>*(G45) Pa mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio o ran cyrraedd ei safonau a thargedau gwasanaethau cwsmeriaid?* | | Oren | 2) Mae polisi corfforaethol ar Ymgynghori ac Ymgysylltu wedi ael ei ddrafftio ac fe fydd yn cael ei rannu ar Ganolbwynt Ymgynghori ac Ymgysylltu sydd newydd ei lansio er mwyn gofyn am adborth gan gwsmeriaid.<br>3) Mae adolygiad o Safonau Cwsmeriaid Corfforaethol yn cysylltu â phwynt 2 ac fe fydd yn cael ei adolygu. |
| 1) Gweithio gyda Swyddog Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gomisiynu gweithdy rhanbarthol o ran sut i ymgysylltu/ymgynghori gyda phobl sydd â nodweddion gwarchodedig<br><br>2) Datblygu proses sicrhau ansawdd ar gyfer Asesiadau Effaith Integredig sydd yn sicrhau yr ymgysylltir ac ymgynghorir â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i lywio penderfyniadau | Mawrth 2025<br><br>Mae angen cymerad-wyaeth bellach yn y Bwrdd | G) Ymgysylltu â Chwsmeriaid a'r Gymuned<br>*(G7) A oes prosesau ar waith i sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu'n digwydd yn effeithiol gyda grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli?*<br>*(G48) A oes gan grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gyfleoedd i fod yn* | Ymgynghorydd Polisi Strategol<br><br>Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol ac Is-grŵp Sicrhau Ansawdd Asesiadau Effaith Integredig | Coch | 1) Dyma gyfle newydd ar gyfer gwelliant yn Hunanasesiad Corfforaethol eleni, felly mae yn y camau cychwynnol<br><br>2) Bydd gweithredoedd sydd yn ymwneud â Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi er mwyn eu cymeradwyo a gosod amserlenni |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 3) Diweddaru canllaw ar fonitro cydraddoldeb a sicrhau bod gan wasanaethau prosesau ar waith i gasglu a defnyddio data monitro cydraddoldeb | Cydraddoldeb Corfforaethol | *rhan o brosesau penderfynu a chynllunio a darparu gwasanaethau?* *(G49) Pa mor fodlon yw preswylwyr â gwasanaethau, yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a sut caiff hyn ei fesur?* *(G50) A yw'r Cyngor yn casglu, yn rhannu ac yn cyhoeddi data a gwybodaeth berthnasol am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ynglŷn â'i gymunedau?* *(G51) Sut mae gwybodaeth am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei diweddaru'n rheolaidd a'i* | Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol ac Is-grŵp Data | Coch | 3) Bydd gweithredoedd sydd yn ymwneud â Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi er mwyn eu cymeradwyo a gosod amserlenni |
| 4) Sefydlu dull o rannu data cydraddoldeb ar draws y Cyngor | Mae angen cymerad-yaeth bellach yn y Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol | | Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol ac Is-grŵp Data | | 4) Bydd gweithredoedd sydd yn ymwneud â Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi er mwyn eu cymeradwyo a gosod amserlenni |
| 5) Sicrhau bod tystiolaeth fwy cadarn a chynhwysfawr o broffil gweithwyr a chwsmeriaid y Cyngor ar gael i'w ddadansoddi. Sicrhau bod data cydraddoldeb ar gael yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr allu cael mynediad at yr hyn sydd ei angen arnynt, pan mae ei angen arnynt | Mae angen cymerad-wyaeth bellach yn y Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol | | Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol ac Is-grŵp Data | | 5) Bydd gweithredoedd sydd yn ymwneud â Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi er mwyn eu cymeradwyo a gosod amserlenni |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *defnyddio i ddynodi blaenoriaethau ar gyfer yr ardal leol?* | | Coch | |
| 1) Cyflwyno'r modiwl e-ddysgu Rheoli Risg | Hydref 2024 | H) Rheoli Risg a Pharhad Busnes *(H57) A oes yna ddealltwriaeth a rennir a barn gyffredin o risgiau a pharodrwydd i dderbyn risg?* | Ymgynghorydd Perfformiad Strategol Bwrdd Cydraddoldeb Corfforaethol ac Is-grŵp Data | Oren | 1) Mae'r modiwl e-ddysgu wedi cael ei lunio ac mae wedi cyrraedd camau olaf profi'r adnodd. Ar ôl iddo gael ei gwblhau, bydd yn cael ei gyflwyno i'r gweithlu ac Aelodau |
| 1) Adolygu Strategaeth Newid Hinsawdd yn ystod 2024-25 | Mawrth 2025 | (I) Newid Hinsawdd *(I59) Sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i leihau effaith newid hinsawdd?* *(I60) Beth yw agwedd y Cyngor at fesurau lliniaru newid hinsawdd mewn perthynas* | Rheolwr y Rhaglen, Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon | Oren | 1) Mae hyn yn rhoi cyfle i ni adolygu ein hymrwymiadau presennol ac ystyried sut allwn ni weithio'n well gyda'n partneriaid a'r gymuned i leihau effaith newid hinsawdd, yn ogystal â mesurau lliniaru ar gyfer gweithrediadau'r Cyngor ei hun |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 2) Mae'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn y rhanbarth wedi cytuno i lunio asesiad risg hinsawdd fel dull rhanbarthol. Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cyfrannu at y broses hon fel budd-ddeiliad allweddol. | Mawrth 2025 | *â'i weithrediadau ei hunan?* *(I62) Sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at darged sero net erbyn 2050 ar draws ei gymuned gyfan?* *(I63) Beth yw'r ymagwedd o ran addasu a datblygu gwydnwch lleol ar gyfer newid hinsawdd?* | Rheolwr y Rhaglen, Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon | **Oren** | 2) Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cyfrannu at y broses hon fel budd-ddeiliad allweddol |
| 1) Gwella cyfathrebu'n fewnol gyda Swyddogion ac Aelodau er mwyn sicrhau bod pawb yn gyfarwydd ac yn deall ymrwymiadau a chynnydd y Cyngor. | Mawrth 2025 | (I) Newid Hinsawdd *(I61) A yw'r Cyngor yn deall ac yn derbyn perchnogaeth dros ymrwymiadau sero net 2030 yn Sero Net Cymru?* *(I64) I ba raddau y mae'r camau lliniaru ac addasu sy'n ymwneud â newid* | Rheolwr y Rhaglen, Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon | **Oren** | 1) Mae perchenogaeth o ymrwymiadau sero net y Cyngor wedi cael ei fabwysiadu ar draws y Sefydliad. Mae gwaith dal yn mynd rhagddo i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o newid hinsawdd a'i effeithiau, yn rhan o raglen newid ymddygiad barhaus. Mae cyfathrebu'n fewnol yn gwella gyda drwy ddefnyddio newyddion am y gweithlu ac ymgysylltu â gweithwyr yn fwy aml |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 2) Hwyluso hyfforddiant wedi'i achredu a heb ei achredu i Aelodau a Swyddogion i wella eu gwybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau newid hinsawdd<br><br>3) Arolygon cyflwr adeiladau ar gyfer ysgolion y Cyngor er mwyn gosod gwaelodlin<br><br>4) Dilyn arfer gorau wrth gostio gweithredoedd carbon eraill | Mawrth 2025<br><br>Mawrth 2025<br><br>Mawrth 2025 | *hinsawdd wedi'u blaenoriaethu ac yn cyd-fynd â strategaeth ariannol y Cyngor?* | Rheolwr y Rhaglen, Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon<br><br>Rheolwr y Rhaglen, Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon<br><br>Rheolwr y Rhaglen, Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon | **Oren** | 2) Mae hyfforddiant llythrennedd carbon ac e-ddysgu ar gael i swyddogion ac Aelodau, ac mae 'Carbon' bellach yn bwnc gorfodol yn rhaglen hyfforddiant yr Aelodau<br><br>3) Fe fydd arolygon cyflwr adeiladau presennol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yn galluogi i ni osod gwaelodlin, ac oddi yno gellir sefydlu costau mwy cywir a chynlluniau yn raddol ar gyfer ein stoc adeiladau<br><br>4) Bydd y Cyngor yn parhau i ddilyn y newyddion diweddaraf o ran yr ymarfer gorau diweddaraf wrth gostio gweithredoedd carbon eraill er mwyn sicrhau bod y rhaglen waith yn realistig ac yn gyraeddadwy |
| 1) Monitro ac adrodd ar leihau allyriadau | Mawrth 2025 | (l) Newid Hinsawdd *(i66) A gymerir unrhyw gamau i gofnodi, monitro ac adrodd ar gynnydd gyda gostyngiadau mewn allyriadau yn y gymuned ehangach?* | Rheolwr y Rhaglen, Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon | **Oren** | 1) Fe fydd monitro ac adrodd allyriadau carbon o fewn y gymuned ehangach yn cael ei adolygu yn rhan o adolygu Strategaeth Newid Hinsawdd, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu defnyddio ei ddylanwad fel sefydliad sector |

| Cyfleoedd ar gyfer Gwella 2023/24 | Dyddiad Cwblhau Targed | Thema a'r Cwestiwn y Cyfrennir atynt | Perchennog | Cynnydd COG | Sylwadau am y Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cyhoeddus i leihau carbon yn ehangach y tu allan i'w weithrediadau ei hunan |
| 1) Defnyddio data a chynnydd go iawn o'r 2-5 mlynedd diwethaf i gynllunio golau tymor canolig a hirdymor sydd yn gyraeddadwy ac yn uchelgeisiol. | Mawrth 2025 | (I) Newid Hinsawdd *(I67) A yw newid hinsawdd yn cael ei gynnwys mewn cynlluniau tymor canolig a hir dymor ac a oes yna ddigon o adnoddau ar gyfer gweithredoedd wedi'u cynllunio ar liniaru ac addasu i newid hinsawdd, pa un fydd yn cael yr effaith fwyaf?* | Rheolwr y Rhaglen, Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon | **Oren** | 1) Eto, fe fydd strategaeth Newid Hinsawdd eleni yn galluogi'r Cyngor i ddefnyddio data a chynnydd go iawn o'r 2-5 mlynedd diwethaf i gynllunio golau tymor canolig a hirdymor sydd yn gyraeddadwy ac yn uchelgeisiol |

# 12. Ardystiad

Mae'r Hunanasesiad Corfforaethol a gynhaliwyd yn rhoi asesiad cynhwysfawr o'r sefydliad ac yn darparu platfform o sicrwydd

Mae cyfleoedd i wella wedi'u nodi drwy'r adolygiad hwn.  Rydym yn addo ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r materion hyn dros y flwyddyn sydd i ddod a byddwn yn monitro eu gweithredu a'u gweithrediad yn rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf

Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir y Fflint



**Neal Cockerton**
**Prif Weithredwr**



**Y Cyng. Ian B Roberts**
**Arweinydd y Cyngorl**